Y Bwrdd Taliadau

**Papur Tystiolaeth**

# Cymorth Staffio i Aelodau o'r Senedd

March 2025

## Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth am y cymorth staffio sydd ar gael i Aelodau o'r Senedd (Aelodau) gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd (y Bwrdd) gyda gwybodaeth gymharol am y cymorth staffio sydd ar gael i seneddwyr mewn gwahanol ddeddfwrfeydd eraill.

Lluniwyd y papur hwn i gefnogi gwaith y Bwrdd, yn benodol adolygiad y Bwrdd o gymorth staffio i Aelodau sy'n ceisio sefydlu'r lefel briodol o'r cymorth staffio i'w darparu i Aelodau tymor y Senedd nesaf - y Seithfed Senedd.

Nid yw'r papur yn ystyried maint a chymhlethdod llwyth gwaith yr Aelodau fel sail ar gyfer ystyried gofynion cymorth staffio Aelodau'r Seithfed Senedd. Mae'n anochel y bydd maint a chymhlethdod llwyth gwaith etholaethol a seneddol aelodau etholedig yn amrywio o Aelod i Aelod ac i raddau, mae'n fater o ddewis i'r Aelodau. Er enghraifft, bydd rhai Aelodau yn dewis chwilio am waith achos etholaethol drwy ymgysylltu â'r cyhoedd tra bydd eraill yn dewis canolbwyntio'n bennaf ar eu gwaith seneddol. Felly, mae'n anodd mesur maint a chymhlethdod llwyth gwaith yr Aelodau ar hyn o bryd ac nid yw'n hysbys sut y bydd yn newid yn y Seithfed Senedd. O'r herwydd, mae'r papur hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar lefel y cymorth staffio sydd ar gael i'r Aelodau ar hyn o bryd, y defnydd a wneir o'r cymorth hwn a'r cymorth staffio a ddarperir i Aelodau deddfwrfeydd eraill, fel sail i benderfyniadau'r Bwrdd ar y cyllid i'w ddarparu i'r Aelodau yn y dyfodol at ddibenion cyflogi staff.

# Cynnwys

**1. Y cefndir ........................................................................................3**

**2. Cymorth Staffio i Aelodau unigol o'r Senedd ....................................5**

Esblygiad y gyllideb staffio ........................................................................ 5

Y gyllideb staffio bresennol........................................................................ 6

Aelodau fel cyflogwyr staff cymorth ......................................................... 7

Gwariant staffio Aelodau ........................................................................... 11

**3. Cymorth Staffio i aelodau o ddeddfwrfeydd eraill ..........................13**

# 1. Y cefndir

**1.** Cefnogir Aelodau o'r Senedd i gyflawni eu dyletswyddau yn y Senedd gan staff sydd ag ystod eang o arbenigeddau. Er enghraifft, mae Comisiwn y Senedd yn darparu clercod, ymchwilwyr, cynghorwyr cyfreithiol, arbenigwyr cyfathrebu ac arbenigwyr TGCh, i enwi ond rhai, i'r Aelodau i'w cynorthwyo â gwahanol agweddau ar eu gwaith. Mae'r cymorth hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y busnes seneddol o ddeddfu a chraffu ar waith Llywodraeth Cymru drwy gyfarfodydd pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn, er bod swyddogion y Comisiwn hefyd yn cefnogi agweddau eraill ar waith yr Aelodau.

**2.** Mae cymorth staffio hefyd ar gael i Aelodau a grwpiau gwleidyddol yn y Senedd drwy Benderfyniad y Bwrdd Taliadau ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau (y Penderfyniad). Rhoddir cyllideb staffio i bob Aelod unigol er mwyn cyflogi staff i gynorthwyo perfformiad dyletswyddau'r Aelod o'r Senedd ac i dalu costau sy'n gysylltiedig â chyflogi staff.

**3.** Mae'r papur tystiolaeth hwn yn canolbwyntio ar y cymorth staffio sydd ar gael i Aelodau drwy Benderfyniad y Bwrdd.

**4.** Mae'r Bwrdd hefyd yn darparu cymorth staffio i grwpiau gwleidyddol yn y Senedd drwy'r gyllideb Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol y gellir ei defnyddio i dalu cyflogau a chostau cysylltiedig staff a gyflogir i gefnogi swyddogaethau grwpiau gwleidyddol, er enghraifft ymchwilwyr a gyflogir at ddibenion datblygu polisi grŵp. Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol yw cyflogwyr dynodedig staff a gyflogir drwy'r gyllideb Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol. Gall grwpiau ddefnyddio'r gyllideb hon at ddibenion eraill hefyd, er enghraifft darparu gofal bugeiliol i aelodau'r grŵp.

**5.** Caiff y swm o gyllid sydd ar gael i Aelodau unigol ac Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol at ddibenion cyflogi staff ei bennu gan y Bwrdd Taliadau a'i gyhoeddi yn ei Benderfyniad ar Gyflog a Lwfansau'r Aelodau.

**6.** Cyfrifoldeb yr Aelodau a'r Grwpiau yw sicrhau bod eu costau staffio yn fforddiadwy o fewn terfynau'r cymorth ariannol a bennir gan y Bwrdd Taliadau. Rhaid i Aelodau a Grwpiau sicrhau bod eu costau staffio yn parhau i fod yn fforddiadwy dros amser wrth i gyflogau staff gynyddu o un flwyddyn i'r nesaf, yn unol â chynnydd cyflog blynyddol staff.

**7.** Caiff cyflogau staff cymorth eu talu'n ganolog gan Gomisiwn y Senedd ar ran yr Aelodau gyda'r costau'n cael eu talu o gyllidebau staffio'r Aelodau.

**8.** Caiff y cyllid a ddarperir i grwpiau gwleidyddol at ddibenion cyflogi staff ei gyfrifo ar sail cyllideb gyffredinol a rennir ymysg yr holl grwpiau gwleidyddol (fel y'i diffinnir yn y Penderfyniad) gan ddefnyddio fformiwla a nodir ym Mhennod 8 y Penderfyniad. Mae staff a gyflogir drwy'r cyllid hwn yn darparu cefnogaeth i grwpiau o Aelodau gyda'i gilydd yn hytrach nag i Aelodau unigol. Cânt eu talu yr un cyflogau ac yn yr un modd â staff a gyflogir gan Aelodau unigol, ac eithrio'r ffaith y gall Grwpiau gyflogi Pennaeth Staff (y radd uchaf o staff Grŵp) nad yw'n rôl y gall Aelodau unigol ei chyflogi.

# 2. Cymorth Staffio i Aelodau unigol o'r Senedd

## Esblygiad y gyllideb staffio

**9.** Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o newidiadau dros amser i'r gyllideb sydd ar gael i Aelodau unigol at ddibenion cyflogi staff a'r rheolau sy'n ymwneud â defnyddio'r gyllideb hon.

*Tabl 1 - Esblygiad y gyllideb staffio*

| Dyddiad | Newidiadau a Wnaed |
|---|---|
| 2007 | Caniateir i Aelodau gyflogi 2.5 o staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) o ddechrau'r 3ydd Senedd. |
| Gorffennaf 2007 | Caniateir i Aelodau gyflogi 3 CALl un ym mhob un o'r bandiau tâl sydd ar waith ar y pryd. |
| 2011 | Cyflwyno newidiadau yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad Addas i'r Diben ar Benderfyniad cyntaf y Bwrdd yn 2011:<br>▪ Caiff Aelodau gyflogi hyd at 3 CALl ar unrhyw gyfuniad fforddiadwy o fandiau cyflog ar yr amod bod 1 CALl yn benodol ar gyfer cefnogi'r Aelod mewn swyddogaeth ymchwil.<br>▪ Caniateir i ddau neu fwy o Aelodau gronni rhannau neu'r cyfan o'u cyllideb staffio i gryfhau'r cymorth sydd ar gael iddynt.<br>▪ Caiff Aelodau drosglwyddo rhan o'u cyllideb staffio i'w grŵp gwleidyddol. |
| 2016 | Penderfyniad ar gyfer y Pumed Senedd<br>Cyflwyno'r swydd Uwch Gynghorydd, gyda'r cyflog wedi'i bennu ar yr un lefel â'r rôl Cymorth Grŵp Ychwanegol presennol. |
| 2019 | Adolygiad o'r Cymorth Staffio<br>Dileu cap o 111 ar oriau wythnosol cytundebol cyfunol yr holl staff a gyflogir yn barhaol (sy'n cyfateb i uchafswm o 3 aelod o staff ar 37 awr yr wythnos) i roi mwy o hyblygrwydd i'r Aelodau o ran defnyddio'r Lwfans.<br>Mwy o hyblygrwydd i Aelodau allu trosglwyddo arian rhwng gwahanol gyllidebau. |

Commented [GD1]: Neu CALl - Cyfwerth Amser Llawn

Commented [HG2R1]: Diolch Gwenno. Ie, plis wnei di newid pob cyfeiriad at FTE I CALl plis?

| | |
|---|---|
| | Dileu'r ddarpariaeth i drosglwyddo arian o gyllideb staffio'r Aelodau i'w grŵp gwleidyddol. |
| 2023 | Cynyddodd cwantwm cyllideb staffio'r Aelodau i alluogi Aelodau i gyflogi staff ar un o'r cyflogau uchaf a delir i rolau'r Uwch Gynghorydd, Band 1 a Band 2. |

## Y gyllideb staffio bresennol

**10.** Mae swm y cyllid sydd ar gael i Aelod unigol at ddibenion cyflogi staff yn gasgliad o'r tri phwynt cyflog uchaf o'r tair gradd uchaf o fewn y fframwaith cyflog a graddio staff, a nodir ym Mhennod 7 y Penderfyniad. Mae'r fframwaith cyflog a graddio staff yn cael ei bennu gan y Bwrdd ac mae'n rhoi modd i'r Aelodau ddosbarthu rolau a gyflogir ganddynt yn unol â lefel y swydd (h.y. bandiau cyflog), gydag ystodau cyflog a phwyntiau cyflog wedi'u nodi ar gyfer pob band cyflog.

*Tabl 2 - Y fframwaith cyflog a graddio ar gyfer staff yr Aelodau (2024-25)*[1]

| Band | Pwynt cyflog 1 | Pwynt cyflog 2 | Pwynt cyflog 3 | Pwynt cyflog 4 | Pwynt cyflog 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uwch-gynghorwr** | £40,845 | £42,904 | £45,074 | £47,349 | £49,752 |
| **Band 1** | £30,520 | £33,195 | £36,123 | £39,318 | £42,811 |
| **Band 2** | £26,153 | £28,704 | £31,520 | £34,169 | £38,039 |
| **Band 3** | £23,742 | £25,532 | £27,462 | £29,546 | £31,798 |

**11.** Cyllideb staffio'r Aelodau ar gyfer 2024-25 yw £130,602, sef croniad o bwyntiau cyflog uchaf y tri band uchaf: Uwch Gynghorydd, Band 1 a Band 2 (£49,752, £42,811 a £38,039 yn y drefn honno). Wrth i'r cyflogau hynny gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn yn unol â'r mynegai a nodir ym Mhenderfyniad y Bwrdd (Arolwg Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Enillion Aelwydydd (ASHE)), felly hefyd y mae cwantwm cyllideb staffio'r Aelodau.

**12.** Gall aelodau gyflogi unrhyw nifer o staff ar unrhyw gyfuniad o fandiau cyflog ar yr amod nad yw cyfanswm y gost yn uwch na chyfanswm y gyllideb ac na fydd yn gwneud hynny yn y dyfodol wrth i staff symud yn flynyddol i fyny’r pwyntiau cyflog ar gyfer eu gradd swydd. Caiff

[1] I'w nodi, Mae pwynt cyflog 1 Band 3 wedi cynyddu i £24,243 yn unol â'r Cyflog Byw Gwirioneddol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024.

Aelodau drosglwyddo (h.y. symud) 25 y cant o'u Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr (£6,403 yn 2024/25) i'w cyllideb staffio fel ffordd o gynyddu eu cyllideb staffio. Yn 2023/24, trosglwyddodd saith Aelod £2,035 ar gyfartaledd i'w cyllideb staffio.

**13.** Yn ogystal â thalu cyflogau'r staff a gyflogir ganddynt, rhaid i'r Aelodau dalu costau eraill sy'n gysylltiedig â bod yn gyflogwr, o'u cyllideb staffio, er enghraifft unrhyw daliadau goramser a threuliau teithio a wneir i staff, lle bo hynny'n berthnasol.

**14.** Mae rhai costau penodol a ysgwyddir gan Aelodau wrth gyflogi staff yn cael eu talu o gyllidebau canolog ac ni chânt eu dyrannu yn erbyn cyllideb staffio'r Aelodau. Er enghraifft, caiff cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiwn cyflogwyr sy'n gysylltiedig â chyflogau staff, costau talu staff dros dro (a elwir yn Lwfans Staffio Dros Dro) a'r Lwfans Gweithio Gartref y gall Aelodau eu hawlio ar ran eu staff, eu talu'n ganolog ac nid o gyllideb staffio'r Aelodau.

**15.** Gweler rhagor o wybodaeth yn Nhabl 10 isod ar wahaniaethau o ran sut y caiff costau nad ydynt yn gyflogau cyflogi staff eu hariannu yn amrywiol seneddau'r DU.

## Aelodau fel cyflogwyr staff cymorth

**16.** Mae'r trefniadau cyflogaeth ar gyfer staff cymorth Aelodau a gaiff eu hefelychu mewn rhai deddfwrfeydd eraill (e.e. Senedd y DU) ychydig yn gymhleth. Er bod y 60 Aelod o'r Senedd yn gyflogwyr unigol ar y staff a benodir ganddynt i gefnogi eu dyletswyddau yn y Senedd, mae'r cyflogau sy'n daladwy i staff cymorth yn cael eu pennu i raddau helaeth gan y Bwrdd gyda rhywfaint o hyblygrwydd cyfyngedig i'r Aelodau newid cyflogau cychwynnol a chyfradd cynnydd cyflog eu staff (o fewn y ffiniau a osodir gan y Bwrdd).

**17.** Gweinyddir cyflogau staff gan Gomisiwn y Senedd ar ran yr Aelodau a thelir y gost o gyllidebau staffio'r Aelodau, gyda'r Bwrdd yn pennu lefel briodol y gyllideb staffio. Drwy bennu cyflogau staff yn bennaf gan y Bwrdd yn hytrach na'r Aelodau eu hunain, mae hyn yn adlewyrchu'r angen i sicrhau cysondeb yn y cyflogau a delir am rolau tebyg ar draws pob un o'r 60 o swyddfeydd Aelodau.

**18.** Mae'r Bwrdd yn rhoi disgresiwn i Aelodau gyflogi staff mewn unrhyw gyfuniad o rolau i ddiwallu anghenion neu flaenoriaethau'r Aelod ei hun a'r cydbwysedd a ffafrir o ran cefnogaeth etholaethol a seneddol.

**19.** Mae'r hyblygrwydd a ddarperir a dulliau ac anghenion amrywiol yr Aelodau wedi gweld ystod eang o drefniadau ar gyfer cyflogi staff a defnydd o'r gyllideb staffio.[2] Mae tabl 3 isod yn dangos amrywiant sylweddol yn nifer y CALl staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan Aelodau yn hydref 2023.

*Tabl 3 – Nifer y CALl a gyflogwyd gan Aelodau*

| **Nifer y staff a gyflogwyd** | **Nifer yr Aelodau** |
|---|---|
| 0-1 | 0 |
| Llai na 2 | 2 |
| 2 – 2.5 | 4 |
| >2.5 - 3 | 11 |
| >3 – 3.5 | 29 |
| >3.5 - 4 | 14 |
| **Cyfanswm** | 60 |

**20.** Darperir rhagor o wybodaeth isod i ddangos yr ystod eang o drefniadau cymorth staffio a ddefnyddiwyd gan Aelodau. I nodi, mae'r ffigurau a ddarperir isod yn seiliedig ar wahanol setiau data a luniwyd ar wahanol gyfnodau o amser. O'r herwydd, mae'r ffigurau'n adlewyrchu amrywiad dros amser yn nifer gyffredinol y staff a gyflogwyd gan yr Aelodau gyda'i gilydd. Dylid ystyried y ffigurau a ddarperir fel rhai dangosol yn unig ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu'r nifer gwirioneddol o staff a gyflogwyd ar unrhyw un adeg:

- Ar hyn o bryd caiff 238 o staff eu cyflogi ar draws swyddfeydd yr Aelodau.[3]
- Mae cymysgedd o gyflogaeth amser llawn a rhan-amser ar draws swyddfeydd yr Aelodau. Y rhaniad (gan gynnwys staff grwpiau gwleidyddol) yw 130 o staff amser llawn a 134 rhan-amser (gyda 71 o'r rheiny yn cael eu cyflogi rhwng 2.5 a 19.5 awr a 63 yn cael eu cyflogi rhwng 21 a 35 awr).[4]

[2] Daw'r data hyn o hydref 2023.
[3] Yn ôl data Mehefin 2024 a gymerwyd o'r cyfeiriadur staffio ar fewnrwyd Comisiwn y Senedd
[4] Yn ôl data MBS a ddarparwyd yn hydref 2023.

- Mae 6 aelod o staff yn gweithio, yn rhan-amser, i fwy nag un Aelod.[5]

**21.** Mae dosbarthiad rolau ar draws y bandiau cyflog fel a ganlyn (noder nad yw'r data'n dangos rhaniad amser llawn/rhan-amser):

*Tabl 4 – Dosbarthiad swyddi staff cymorth ar draws bandiau cyflog*

| Band | Nifer |
|---|---:|
| Uwch-gynghorydd | 24 |
| Band 1 | 69 |
| Band 2 | 88 |
| Band 3 | 57 |
| **Cyfanswm** | **238** |

**22.** Ar adeg ysgrifennu hyn, mae'r Bwrdd yn bwriadu disodli'r fframwaith tâl a graddio staff presennol sy'n pennu lefelau tâl ar gyfer swyddi yn ôl lefel y swydd, a rhoi fframwaith newydd yn ei le, yn seiliedig ar fodel teuluoedd swyddi, sy'n gosod lefelau tâl yn ôl y math o waith a wneir yn ogystal â lefel y swydd. Mewn adolygiad gan y Bwrdd o'r mathau o waith a wneir gan staff cymorth, nodwyd mai'r pedair prif rôl ganlynol oedd y staff yn eu cyflawni – rheoli a gweinyddu; gwaith achos, cyfathrebu, polisi ac ymchwil.

**23.** Mae hyn yn darparu model diddorol i gynorthwyo dealltwriaeth o'r dosbarthiad a'r math o rolau a gyflogir ar hyn o bryd ar draws swyddfeydd yr Aelodau. Mae'r dadansoddiad canlynol o rolau staff cymorth yn seiliedig ar ddadansoddiad o deitlau swyddi a rhagdybiaethau ar brif ffocws pob rôl. O'r herwydd, dangosol yn unig yw'r dadansoddiad hwn.[6]

*Tabl 5 – Dosbarthiad o'r staff presennol rhwng teuluoedd swyddi*

| Teulu o Swyddi | Nifer y Cyflogeion |
|---|---:|
| Rheoli a Gweinyddu | 59 |
| Gwaith Achos | 56 |
| Cyfathrebu | 64 |
| Polisi ac Ymchwil | 66 |
| **Cyfanswm** | **245** |

[5] Ibid

[6] Dangosol yn unig yw hyn, gan fod dyraniad i deulu swydd yn seiliedig ar deitl swydd yn unig ac nid ddealltwriaeth o union natur pob rôl. Ni fu'n bosibl chwaith canfod pa rolau sy'n rhan-amser.

*Tabl 6 - nifer yr Aelodau sy'n cyflogi o leiaf un aelod o staff yn y teulu swyddi penodedig*[7]

| Teulu o Swyddi | Nifer yr Aelodau sy'n cyflogi o leiaf un aelod o staff yn y teulu o swyddi penodedig |
|---|---|
| Gwaith Achos | 46 |
| Cyfathrebu | 44 |
| Rheoli a Gweinyddu | 44 |
| Polisi ac Ymchwil | 51 |

**24.** Er mwyn helpu i ddeall y ffigurau a ddarperir yn y tabl uchod, mae 46 Aelod yn cyflogi o leiaf un gweithiwr achos, mae 44 Aelod yn cyflogi o leiaf un arbenigwr cyfathrebu ac ati.

**25.** Eto, gan ddefnyddio teitlau swyddi staff yr Aelodau fel y darperir ar gyfeiriadur staffio Comisiwn y Senedd fel dangosydd o'r teulu o swyddi y byddai'r swyddi hynny'n disgyn iddynt (at ddibenion eglurhaol yn unig) gellir rhagdybio'r dadansoddiad canlynol o ddosbarthiad y mathau o swyddi a gyflogir gan Aelodau:

- Mae 20 Aelod yn cyflogi o leiaf un aelod o staff ym mhob un o’r 4 teulu o swyddi;
- Mae 26 Aelod yn cyflogi o leiaf un aelod o staff mewn 3 o’r teulu o swyddi;
- Mae 13 Aelod yn cyflogi o leiaf un aelod o staff mewn 2 o’r teulu o swyddi;
- Mae 1 Aelod yn cyflogi staff mewn 1 teulu o swyddi yn unig.


**26.** O ran y cyfuniadau o fathau o rolau a gyflogir gan Aelodau, mae'r dosbarthiad yn gymharol gyfartal. Er enghraifft, mae 38 Aelod yn cyflogi o leiaf un aelod o staff mewn rôl gwaith achos a rôl bolisi ac ymchwil. Mae'r un nifer o Aelodau yn cyflogi o leiaf un aelod o staff mewn rôl polisi ac ymchwil a rôl rheoli a gweinyddu. Mae 36 Aelod yn cyflogi o leiaf un aelod o staff mewn rôl cyfathrebu ac mewn rôl polisi ac ymchwil ac ati.

[7] Dangosol yn unig yw hyn, gan fod dyraniad i deulu swydd yn seiliedig ar deitl swydd yn unig ac nid ddealltwriaeth o union natur pob rôl. Ni fu'n bosibl chwaith canfod pa rolau sy'n rhan-amser.

## Gwariant staffio Aelodau

**27.** Caiff gwariant Aelodau ar gymorth staffio ei gofnodi gan Gomisiwn y Senedd (MBS) a chaiff ei gyhoeddi ar wefan y Senedd. Nodir cyfrannau eu cyllideb staffio a wariwyd gan yr Aelodau yn ystod dwy flynedd ariannol lawn gyntaf y Senedd bresennol yn y tablau isod:


*Tabl 7 - Cyfran y gwariant yn erbyn Lwfans Staffio'r Aelodau 2022-23*




Commented [GL3]: I am unable to translate these as they are images and cannot be changed. Are you able to access them and insert the following please? The Welsh is in red:

Proportion of spend against MSs Staffing Allowance = Cyfran y gwariant yn erbyn Lwfans Staffio'r Aelodau
No of MSs = Nifer yr Aelodau
Percentage of Allowance spent = Canran y Lwfans a wariwyd

*Tabl 8 - Cyfran y gwariant yn erbyn Lwfans Staffio'r Aelodau 2023-24*




**28.** Fel y dangosir uchod, ym mlwyddyn ariannol lawn gyntaf y Senedd bresennol, gwariodd un rhan o chwech o'r Aelodau 80 y cant neu lai o'u cyllideb staffio. Gan ystyried bod cyflogau staff yn cynyddu o un flwyddyn i'r nesaf, mae'n ddiddorol nodi bod cyfran yr Aelodau a wariodd 80 y cant neu lai o'u Lwfans Staffio wedi cynyddu o un rhan o chwech yn 2022-23 i ychydig dros

chwarter yn 2023-24. Nid yw'r rhesymau dros hyn yn hysbys. Mae’r rhesymau posibl yn cynnwys nifer uwch o swyddi gwag o ran y staff yn y flwyddyn ariannol gyntaf nag yn yr ail flwyddyn, neu gostau goramser is yn yr ail flwyddyn ariannol nag yn y flwyddyn ariannol gyntaf.

**29.** Yn ystod dwy flynedd ariannol lawn gyntaf y Senedd bresennol (2022-23 a 2023-24) gwariodd ychydig dros draean o'r Aelodau 81-90 y cant o'u cyllideb staffio.

**30.** Roedd nifer yr Aelodau a wariodd rhwng 91-100 y cant o'u cyllideb staffio yn parhau'n gymharol gyson dros y ddwy flynedd ariannol (23 ac 17 Aelod yn y drefn honno).

**31.** Yn y ddwy flwyddyn ariannol roedd 6 Aelod wedi mynd dros derfyn uchaf eu cyllideb staffio ac roedd angen iddynt drosglwyddo arian o'u cyllideb Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i dalu am eu gorwariant.

# 3. Cymorth Staffio i aelodau o ddeddfwrfeydd eraill

**32.** Cyllideb staffio'r Aelodau ar gyfer 2024-25 yw £130,602, sef cronni'r Pwyntiau Cyflog uchaf ym mhob un o'r tri band cyflog uchaf - Uwch Gynghorydd, Band 1 a Band 2 (£49,752, £42,811 a £38,039 yn y drefn honno). Fel y nodir uchod, caiff Aelodau gyflogi unrhyw nifer o staff ac unrhyw gyfuniad o rolau o fewn terfynau eu cyllideb staffio.

**33.** Mae'r tabl isod yn cymharu'r gyllideb staffio sydd ar gael i Aelodau unigol o'r Senedd â'r cyllidebau staffio sydd ar gael i aelodau Seneddau'r DU a'r Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

*Tabl 9 – Cyfanswm cyllidebau staffio Aelodau gwahanol ddeddfwrfeydd y DU*

| 2024-25 | Senedd y DU | Senedd yr Alban | Cynulliad Gogledd Iwerddon | Senedd Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Lwfans Staffio***<br>*Telir cyfraniadau pensiwn ac Yswiriant Gwladol y staff o gyllidebau staffio Aelodau Seneddol y DU ac Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon, ond telir yn ganolog yn y Senedd a Senedd yr Alban. Felly mae cyllidebau staffio aelodau o'r Senedd a Senedd yr Alban a ddangosir yn y tabl hwn wedi'u cynnwys i gyfrif am gyfraniadau pensiwn ac Yswiriant Gwladol, er mwyn eu cymharu. | £250,820<br>Aelod Seneddol Ardal y tu allan i Lundain<br>£268,550<br>Aelod Seneddol Ardal Llundain | £156,900<br>*c£192,828 | £90,900 | £130,602<br>*c£159,877 |

**34.** Nid oes modd cymharu cyllidebau staffio aelodau o'r gwahanol ddeddfwrfeydd a ddangosir uchod yn uniongyrchol am nifer o resymau. Fel y dangosir yn y tabl isod mae costau gwahanol yn cael eu talu o'r cyllidebau staffio ym mhob deddfwrfa, gan adlewyrchu'r ffaith bod

Commented [GD4]: Angen double-check - yn y ddogfen Saesneg ma'n dweud *c£159,877

Commented [HG5R4]: Wnei di newid hwn i gyfateb gyda'r ffigwr yn y ddogfen Saesneg plis?

natur a lefel y cymorth staffio a ddarperir yn ganolog i aelodau'r deddfwrfeydd hyn (yn hytrach na thrwy eu cyllidebau staffio) yn amrywio'n sylweddol.

*Tabl 10 – costau a dalwyd o gyllidebau staffio Aelodau gwahanol ddeddfwrfeydd y DU*

| Costau a delir o'r Lwfans Staffio | Senedd y DU | Senedd yr Alban | Cynulliad Gogledd Iwerddon | Senedd Cymru |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau staff (yn cynnwys staff dros dro) | √ | √ | √ | √ |
| Cyfraniadau YG a phensiwn y cyflogwr | √ | X | √ | X (telir yn ganolog) |
| Taliadau goramser | √ | √ | Ni chaniateir i Aelodau gyflogi staff am fwy na 37 awr yr wythnos. | √ |
| Lwfans Gweithio Gartref | √ (Lwfans ond ar gael i staff sy'n gweithio gartref yn barhaus) | Lwfans ddim ar gael | √ | X (telir yn ganolog) |
| Costau gwasanaethau staffio wedi'u cyfuno | √ | √ (Caiff Aelodau wneud cais am gyllid ychwanegol os byddai gwneud taliadau diswyddo yn golygu mynd dros derfyn eu Lwfans) | Ni chyfeirir yn y Penderfyniad at wasanaethau staffio wedi'u cyfuno | Ni chyfeirir yn y Penderfyniad at wasanaethau staffio wedi'u cyfuno |
| Gwasanaethau a brynir i mewn e.e. ymgynghorwyr | √ | Dim sôn am y gost hon yn y cynllun. Gellir talu | √ (gweithwyr asiantaeth dros dro) | X (Gall Aelodau dalu am wasanaethau polisi / ymchwil / cyfathrebu a brynwyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | staff asiantaeth o'r Ddarpariaeth Costau Staff. | | i mewn drwy gyllideb wahanol) |
| Taliadau gwobrwyo a chydnabyddiaeth i staff | √ | Dim sôn am y gost hon yn y cynllun. | Dim sôn am y gost hon yn y Penderfyniad. | Ni chaniateir |
| Costau iechyd a lles staff e.e. profion llygaid | √ | Dim sôn am y gost hon yn y cynllun. | Dim sôn am y gost hon yn y Penderfyniad. | Caiff rhai costau o'r fath, ond nid pob un, eu talu o gyllideb staffio'r Aelodau |
| Costau hyfforddi staff | √ | √ | √ (hyd at uchafswm o £1,500 y flwyddyn). | Darperir hyfforddiant yn uniongyrchol gan Gomisiwn y Senedd. |
| Costau Diswyddo | √ (ond nid y rhai sy'n deillio o golli swydd AS) | √ | √ | Y rhai sy'n deillio o ailstrwythuro swyddfa yn ystod y Senedd yn unig ac nid costau diswyddo oherwydd unrhyw amgylchiadau eraill |
| Trosglwyddo i Gyllideb Staffio o gyllidebau eraill | X | X | X | √ Gellir trosglwyddo hyd at 25 y cant o'u Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr (£6,403 yn 2024/25) i'w cyllideb staffio |

**35.** Am yr un rhesymau byddai'n annheg gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng cyllideb staffio Aelodau o'r Senedd a'r rhai sydd ar gael i aelodau deddfwrfeydd y tu allan i'r DU. Er enghraifft, ers 1 Ionawr 2024 mae gan Aelodau Senedd Ewrop gyllideb staffio fisol o €29,557 ar gael iddynt sy'n golygu cyllideb flynyddol o €354,684 (£296,658). Fodd bynnag, nid oes modd cymharu'r ffigur hwn yn uniongyrchol â chyllideb staffio Aelodau o'r Senedd gan fod y cymorth a ddarperir yn ganolog i aelodau o bob deddfwrfa a'r costau i'w talu o'u cyllidebau staffio yn amrywio.